

# Straeon GOBAITH

cymru
cynghrair efengylaidd
gyda'n gilydd yn cyhoeddi Iesu

# MAE GAN OBAITH

enw, a'i enw yw

# IESU

# Tudalen Gynnwys

**Cyflwyniad   tud. 5**

**Ein hanes   tud. 6**

**Y Cynghrair Efengylaidd yng Nghymru   tud. 8**

**Gobaith i'r rhai sy'n llwgu   tud. 11**
Eglwys Gateway, y Fenni

**Gobaith yn ystod Covid   tud. 12**
Capel Goleudy Môn

**Gobaith ar gyfer iechyd   tud. 14**
Garden of the Lord

**Gobaith i fyfyrwyr   tud. 15**
Eglwys Cornerstone, Abertawe

**Gobaith ar gyfer iechyd meddwl   tud. 16**
Eglwys Gateway, Caerffili

**Gobaith i'r rhai sy'n agored i niwed   tud. 18**
Eglwys Sant Mihangel, Aberystwyth

**Gobaith ar gyfer llesiant   tud. 19**
Eglwys RiverDee, y Fflint

**Gobaith i deuluoedd   tud. 20**
Llanllanast, Penfro


IN THESE STONES HORIZONS SING

# Croeso i Straeon Gobaith

## gan Gynghrair Efengylaidd Cymru.

**Mae'r Cynghrair Efengylaidd yn dod â channoedd o sefydliadau, miloedd o eglwysi, a degau o filoedd o unigolion at ei gilydd i gyhoeddi Iesu.** Gan gynrychioli ein haelodau er 1846, ni yw'r mudiad undod efengylaidd hynaf a mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn cerdded yn ôl troed y bobl efengylaidd sydd wedi mynd o'n blaenau, gan gynnwys y rhai a ddiddymodd y fasnach mewn caethweision, y rhai a ddiwygiodd ein system gyfiawnder a'r rhai a hyrwyddodd addysg i bawb. Heddiw, pobl efengylaidd sydd wrth wraidd mentrau fel cwnsela ynglŷn â dyledion, bugeiliaid stryd, llochesi nos a banciau bwyd.

Rydym yn cadarnhau ac yn cyhoeddi newyddion da Iesu mewn gair a gweithred. Gellir dod ar draws pobl â ffydd efengylaidd weithgar mewn gwleidyddiaeth, busnes, addysg, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, y sector manwerthu, amaeth, y cyfryngau, ffatrïoedd, cyfraith a threfn, chwaraeon, y celfyddydau, a phob agwedd arall ar ddiwylliant, ac maent yn gwneud gwahaniaeth mawr yn ein cymunedau. Drwy ein digwyddiadau, hyfforddiant, gwaith polisi cyhoeddus, adnoddau, a chyhoeddiadau, mae'r Cynghrair Efengylaidd yn annog yr eglwys i godi llais dros y rhai sy'n cael eu pardduo a'u gyrru i'r cyrion.

Ar ddiwedd 2021, dathlodd y Cynghrair Efengylaidd ei ben-blwydd yn 175 oed. I ni, roedd yn gyfle i oedi a diolch i Dduw am bopeth mae wedi'i wneud ynom a thrwom yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth edrych i'r dyfodol, dywed Gavin Calver, ein Prif Weithredwr, "Bydd y cyfnod sydd o'n blaenau yn dilyn y Coronafeirws yr un mor heriol ag unrhyw gyfnod arall yn ein hanes. Rydym wedi ymrwymo i helpu i ailadeiladu'r Deyrnas Unedig yn gymdeithasol ac yn ysbrydol mewn unrhyw ffordd y gallwn. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau undod efengylaidd yn ystod y cyfnod hwn. Byddwn yn codi ein llais, mewn gwirionedd a chariad, ar y materion sy'n bwysig. Byddwn yn ceisio bod yn newyddion da i bobl sydd angen hynny'n fawr."

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi cipolwg ar waith y Cynghrair Efengylaidd yng Nghymru a detholiad o straeon gan rai o'r eglwysi gwych sy'n perthyn i ni ac sy'n ceisio gwasanaethu a charu eu cymunedau. Rydym yn gobeithio y bydd y llyfryn hwn yn eich llenwi â gobaith wrth i chi ei ddarllen.

# Ein hanes

## Mae ein hanes cyfoethog yn cynnwys llawer o ddigwyddiadau i ymfalchïo ynddynt.

**1846**
Dechreuom gydag 800 o arweinwyr efengylaidd mewn cyfarfod yn Llundain.

**1855**
Gydag angerdd dros ryddid crefyddol, dechreuom ddadlau dros hyn yn Ewrop.

**1861**
Lansiwyd ein Hwythnos Weddi Gyffredinol gyntaf erioed, gan mai dim ond Duw sydd â'r atebion.

**1879**
Buom yn codi ein llais dros Gristnogion a oedd yn cael eu herlid yn Bohemia, gan gwrdd ag Ymerawdwr Awstria hyd yn oed.

**1914–1918**
Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd gweddi'n hanfodol, felly aethom ati i drefnu llawer o gyfarfodydd gweddi mawr.

**1918–1939**
Yn ystod y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel, buom yn cefnogi Cristnogion Ewropeaidd yn sgil twf mewn comiwnyddiaeth.

**1939–1945**
Drwy Ddiwrnod Gweddi Cenedlaethol a mentrau arwyddocaol eraill, buom yn eirioli dros ffoaduriaid.

**1954**
Daeth 38,000 o bobl i ffydd yn Ymgyrch Harringay, a noddwyd gennym ni a Billy Graham.

**1960au**
Yn ystod y cyfnod ar ôl y rhyfel, yn sgil newidiadau diwylliannol ym Mhrydain, buom yn hyrwyddo eglwys unedig a oedd yn hyderus yn yr efengyl.

## Darllenwch ein stori

Mae *One Body in Christ: The History and Significance of the Evangelical Alliance* (gan y Parchedig Ddr David Hilborn a'r Parchedig Ddr Ian Randall) yn dilyn hanes y sefydliad ers y dechreuad yn 1846 hyd at 2001, gan ddefnyddio archifau nad oeddent wedi cael eu harchwilio o'r blaen: **eauk.org/one-body-in-christ**

**1968**
Yn dilyn hyn, sefydlwyd TEARFund (The Evangelical Alliance Relief Fund) mewn ymateb i newyn a rhyfel.

**1987–1992**
Ar ôl gweld yr anghenion yng Ngogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban, agorwyd swyddfeydd ym Melfast, Caerdydd a Glasgow.

**2010**
Gyda'n hangerdd dros undod, sefydlwyd Fforwm De Asia i ddod ag eglwys De Asia at ei gilydd a'i chefnogi.

**2011**
Aethom ati o ddifrif i ystyried ystyr bod yn efengylaidd yn yr adroddiad 21st Century Evangelicals a dorrodd dir newydd.

**2013**
Sefydlwyd y Comisiwn Un Bobl i geisio modelu ac annog undod yng nghanol amrywiaeth.

**2014**
Buom yn ymgyrchu gyda Care for the Family a CCPAS dros blant mewn gofal, gan baratoi'r ffordd ar gyfer yr elusen Home for Good.

**2016**
Lansiwyd y Comisiwn Mawr, sef ein hwb digidol i ysbrydoli efengylu pob dydd (eauk.org/great-commission). Aethom ati wedyn i gydweithio â Chymdeithas Gristnogol y Cyfreithwyr ar yr ymgyrch Speak Up fel bod Cristnogion yn gwybod eu rhyddid cyfreithiol wrth rannu'r efengyl (eauk.org/speak-up).

**2019**
Ar ôl arwain y gwaith cenhadu am bedair blynedd, penodwyd Gavin Calver yn Brif Weithredwr, yn dilyn y gwaith da a wnaed gan Clive Calver, Dr Joel Edwards CBE a Steve Clifford.

**2020**
Mewn blwyddyn llawn newyddion drwg, cynnen, heriau a gofid, buom yn rhannu'r efengyl, yn codi ein lleisiau, yn gweddïo ac yn bendithio ein cymunedau.

**2021**
Buom yn dathlu 175 mlynedd o gyhoeddi Iesu.

# Y Cynghrair Efengylaidd yng Nghymru

**Sefydlwyd Cynghrair Efengylaidd Cymru yn dilyn dyhead arweinwyr eglwysi yng Nghymru i weld eglwysi'n cydweithio er mwyn yr efengyl ledled y wlad.** Penodwyd Arfon Jones yn ysgrifennydd cyffredinol cyntaf y Cynghrair yn 1989. Yn bregethwr dawnus ac yn Gymro Cymraeg iaith gyntaf, aeth Arfon ati'n syth i ffurfio tîm o'i gwmpas i ganolbwyntio ar rwydweithio a meithrin cysylltiadau cadarnhaol ar draws gwahanol draddodiadau efengylaidd yng Nghymru. Er mawr ryfeddod, llwyddodd i wneud hynny gyda desg a ffôn yn unig mewn swyddfa wedi'i rhentu yng nghanol tref Caerdydd!

Arfon fu'n arwain y Cynghrair Efengylaidd yng Nghymru hyd 1999. "Roedd yn fraint ac yn her cael fy mhenodi yn Ysgrifennydd Cyffredinol cyntaf Cynghrair Efengylaidd Cymru yn 1989," meddai wrthym. "Roedd cymaint o uchafbwyntiau: y Symposiwm hynod arwyddocaol ar Genedl, Iaith a Diwylliant yn Aberystwyth, Spring Harvest ym Mhwllheli, a datblygiadau cyffrous eraill fel Brecwast Gweddi Cenedlaethol Cymru. Gallwn restru llawer mwy, ond yr uchafbwynt go iawn i mi oedd adeiladu pontydd rhwng y gwahanol draddodiadau efengylaidd a'r holl bobl y cefais y fraint o weithio gyda nhw."

Ar ôl hynny cymerodd y Parchedig Elfed Godding yr awenau gan arwain Cynghrair Efengylaidd Cymru rhwng 1999 a 2018. Pan ofynnwyd iddo beth oedd uchafbwyntiau ei weinidogaeth yn ystod ei gyfnod fel cyfarwyddwr, dywedodd, "Roedd yn fraint i ni gynnal Cynulliad Cyffredinol yr Efengylwyr yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2001, a lansiwyd gyda dathliad yn Arena Ryngwladol Caerdydd lle roedd 5,000 o bobl yn bresennol. Mae uchafbwyntiau eraill yn cynnwys: Cymru Gyfan – plannu a chryfhau eglwysi mewn ardaloedd nad oeddent wedi'u cyrraedd gymaint ag eraill, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg; gwahoddiad gan Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, i ymuno â Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru; a chyfraniadau rheolaidd i BBC Radio Wales yn cyflwyno safbwynt Cristnogol ar amrywiaeth o faterion."

Penodwyd Siân Rees, cyfarwyddwr presennol Cynghrair Efengylaidd Cymru, ym mis Ionawr 2019. Fel rhywun sy'n mwynhau gweithio gyda phobl, ei huchafbwynt hyd yn hyn yw, "popeth yn ymwneud â phobl! Yn 2019, aethom ati i lansio ein hybiau rhanbarthol ledled Cymru gan roi gwahoddiad agored i arweinwyr allweddol, p'un ai'n arweinwyr eglwys neu'n Gristnogion â dwy alwedigaeth, i

gyfrannu at ein gwaith a'n gweledigaeth. Yn sgil hynny, rwyf wrth fy modd yn gallu rhannu straeon am yr hyn mae Iesu yn ei wneud ym mhob rhan o'n gwlad gydag unrhyw un a phob un sy'n fodlon gwrando!" Mae galw mawr am Siân fel siaradwr mewn eglwysi a chynadleddau ledled Cymru a thu hwnt, yn Saesneg ac yn Gymraeg, sef ei hiaith gyntaf, ac mae'n arwain y tîm yng Nghaerdydd.

# Mae'r stori'n parhau yma yng Nghymru

## Rydym yn berthynol...

Mae Salm 133 yn cyhoeddi bod Duw yn gorchymyn bendith, pan fydd undod. Ni all undod Cristnogol ddigwydd y tu allan i berthynas, felly rydym wrth ein boddau'n cysylltu Cristnogion i gydweithio er mwyn yr efengyl. Mae Cynghrair Efengylaidd Cymru yn cynnal trafodaethau bord gron ynghylch materion cyfoes ac yn gwrando'n dda ar yr eglwys ac ar y byd o'n cwmpas fel y gallwn siarad â doethineb a hygrededd pan fyddwn yn codi ein llais. Rydym am hyrwyddo undod efengylaidd ac adlewyrchu amrywiaeth efengylaidd, ac rydym yn sefydlu'r 'Comisiwn Un Bobl' ar hyn o bryd yma yng Nghymru. Bydd y Comisiwn hwn yn canolbwyntio ar feithrin undod eglwysig rhyngddiwylliannol, tyfu eglwysi amlethnig, hyrwyddo cyfiawnder hiliol a herio anghyfiawnder hiliol.

## Rydym yn rhoi adnoddau i'r eglwys...

Mae ein gwefan www.eauk.org yn llawn adnoddau am ddim sy'n annog ac yn arfogi Cristnogion yn eu perthynas â Iesu ac yn eu helpu i roi eu ffydd ar waith. Mae'n cynnwys myfyrdodau diwinyddol, canllawiau ar bolisi cyhoeddus, darnau barn, defosiynau, a deunyddiau i grwpiau bach, ac mae'n llawn straeon newyddion da o bob rhan o'r eglwys sy'n annog Cristnogion i rannu'r stori orau erioed. Drwy ddigwyddiadau, hyfforddiant, gwaith polisi cyhoeddus, adnoddau a chyhoeddiadau, rydym yn ceisio arfogi Cristnogion i gael effaith sylweddol er gwell ym mhob rhan o fywyd cyhoeddus. Mae ein cwrs Arweinydd Cyhoeddus yn enghraifft wych o hyn. Bydd dysgu a phregethu bob amser yn rhan allweddol o'n gwaith ac mae staff Cynghrair Efengylaidd Cymru wedi siarad mewn 84 o eglwysi neu gynadleddau yn 2021 yn unig.

## Rydym yn cynrychioli llais pobl efengylaidd...

Mae'n fraint i Gynghrair Efengylaidd Cymru fod yn rhan o bwyllgorau a fforymau lle gallwn godi llais a chymryd rhan mewn modd cadarnhaol ar ran Cristnogion efengylaidd. Rydym yn rhan o Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru, ac o ganlyniad buom yn gweithio gyda'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ynghylch rheoliadau yn ymwneud â mannau addoli drwy gydol y pandemig. Rydym wedi





gweithio'n helaeth gyda chyfeillion yn Cytûn ar weithgorau yn edrych ar y cwrciciwla newydd o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac rydym yn rhan o'i Rwydwaith Cyfiawnder Hiliol. Roedd ein perthynas waith agos â Cytûn o fudd eto wrth i ni fynd i'r afael â drwgdybiaeth a phetruster brechu (gweler tudalen 12) gydag awdurdodau lleol a'r gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd a Chyngor Rhyng-ffydd Cymru wedi'n galluogi i ddatblygu perthynas waith gadarnhaol â phobl o ffydd y tu allan i'r traddodiad efengylaidd ac mae'r ddau'n rhan gadarnhaol tu hwnt o'n rhwydwaith perthynol.

Yn 2021, lansiwyd ein hadnodd Connect i annog pobl efengylaidd i ymwneud mewn modd cadarnhaol â llywodraeth leol a chenedlaethol ac rydym yn sicr wedi gweld mwy o ddiddorddeb gan yr eglwys o ran ymwneud â pholisi cyhoeddus. Bydd pobl efengylaidd bob amser yn codi llais, mewn gwirionedd a chariad, dros y materion sy'n bwysig. I'r diben hwnnw, mae ymateb i ymgyngoriadau fel y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, ac ymgyngoriadau ynghylch cosb resymol, erthyliad a'r cwricwlwm newydd yn rhan bwysig o'n gwaith. Mae codi llais dros faterion o'r math hwn yn aml yn arwain at gyfweliadau â'r cyfryngau ac rydym wedi gallu darparu'r rhain drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

# Gobaith i’r rhai sy’n llwgu

## Eglwys Gateway, y Fenni

**Mae’r cymorth a’r gefnogaeth mae Eglwys Gateway yn eu rhoi i’r Fenni yn gwneud llawer mwy na helpu’r gymuned yn ymarferol yn unig; mae’n rhoi gobaith i’w phobl, gobaith Iesu.** Mae ei chaffi a arweinir gan wirfoddolwyr yn darparu prydau bwyd am ddim yn ei chanolfan ym Monk Street; ond drwy gydol y pandemig, pan oedd cynifer o bobl yn ei chymuned yn wynebu pob math o galedi, cafodd 14,000 o brydau eu coginio a’u dosbarthu ledled y dref gan aelodau Eglwys Gateway. Y Nadolig diwethaf, dosbarthodd yr eglwys dros 1,000 o hamperi Nadolig i fendithio ei chymuned.

Defnyddir y caffi i roi sgiliau byw allweddol i bobl, gan roi cyfle iddynt ffynnu. Mae’r cyfle i ennill tystysgrifau bwyd a hylendid hefyd yn cael ei gynnig i’r rheiny nad ydynt o bosib yn gallu cael gwaith, ac mae cyfleusterau golchi a chawodydd ar gael i bobl ddigartref neu’r rhai nad ydynt yn gallu talu eu biliau tanwydd. Yn ei dro, mae hyn wedi arwain at gydlyniant cymunedol gwell, ac mae swyddogion heddlu lleol yn aml yn cyfeirio pobl sydd angen cymorth at waith yr eglwys.

Cafodd un dyn a oedd yn ddigartref ac yn gaeth i gyffuriau ac alcohol gynt gymorth gan Eglwys Gateway, a newidiodd hynny ei fywyd yn llwyr. Ar ôl cael ei annog gan aelod o’r gynulleidfa i ymweld â chaffi’r eglwys, daeth y dyn hwn o hyd i gymuned lle roedd yn cael ei garu a’i dderbyn. Bu’n ymweld â’r caffi’n rheolaidd ac roedd yn gallu derbyn gwasanaethau adsefydlu a drefnwyd iddo gan yr eglwys. Wedi iddo oresgyn ei gaethiwed yn y pen draw, cynigiodd y caffi gyfle iddo hyfforddi ac ennill tystysgrif mewn bwyd a hylendid. Cyfarfu’r dyn â menyw o gefndir tebyg a oedd hefyd wedi gwella ar ôl bod yn gaeth, gyda chymorth Eglwys Gateway. Mae’r ddau bellach yn Gristnogion o argyhoeddiad, yn briod, ac yn rhieni balch i ferch fach. Maent yn dal i fod yn rhan o deulu Eglwys Gateway, lle mae’r dyn yn rhan o fand addoliad yr eglwys.

# Gobaith yn ystod Covid

## Capel Goleudy Môn

**Wrth i Covid ddechrau effeithio ar gymunedau ledled Cymru a thu hwnt, dechreuodd Capel Goleudy ystyried sut allent fendithio Ynys Môn drwy neges gobaith.**

Un syniad a gydiodd yn gyflym oedd cynhyrchu fersiwn dwyieithog o'r gân, 'Stand by Me' a berfformiwyd gan gerddorion lleol. Aileiriwyd y gân i gynnwys neges gobaith ar gyfer y gymuned ac ategwyd honno mewn fideo gan Gristnogion Ynys Môn yn dal arwyddion yn dweud "Gweddiwn dros Môn". Aeth y fideo'n feirol ar y cyfryngau cymdeithasol gan gyrraedd tua 16,000 o bobl a dangos yr undod rhwng eglwysi o lawer o wahanol gefndiroedd yn bwerus iawn.

Yn ogystal â chael effaith ar-lein, bu Capel Goleudy yn gweithio'n galed i ddiwallu anghenion ymarferol eu cymuned drwy lansio menter o'r enw 'Gwneud Cinio', mewn partneriaeth â'r elusen Transforming Lives for Good (TLG). Roedd hyn wedi galluogi'r capel i gysylltu â theuluoedd ifanc o gefndiroedd incwm isel yn bennaf a'u bendithio drwy roi 'Parsel Gobaith'. Roedd y pecynnau'n cynnwys pryd o fwyd iach a phecynnau gweithgareddau i blant. Hyd yn hyn, mae'r capel wedi dosbarthu o leiaf un parsel i 91 o deuluoedd gwahanol ac wedi darparu cyfanswm o 832 o brydau. Archebwyd yr amseroedd penodol i gyd cyn pen 48 awr. Mae'r prosiect hwn wedi rhoi'r cyfle i'r capel rannu gobaith Iesu gyda'u cymuned, ac mae ganddo bellach berthynas waith arbennig ag amrywiol wasanaethau lleol, ac maent yn edrych ymlaen at weithio gyda nhw eto yn y dyfodol.

Mae Goleudy yn gapel bach mewn ardal Gymreig wledig, ond drwy weddïo a chredu bod Duw yn symud wrth gamu mewn ffydd, maent wedi gweld pethau anghygoel yn digwydd. Dywedodd Alan a Rachel Radbourne, arweinwyr y capel, stori wrthym am un o'r teuluoedd ifanc y maent wedi cwrdd â nhw drwy 'Gwneud Cinio'. Ar ôl cael ychydig fisoedd cythryblus, gan gynnwys salwch, gorfod symud tŷ a phroblemau o ran budd-daliadau, cysylltodd y teulu ifanc â Chapel Goleudy gan wybod y byddai'n helpu. Roedd y capel yn gallu eu helpu i symud, codi arian ar gyfer peiriant golchi

newydd a darparu bwyd yn ystod yr wythnos symud wrth iddynt aros am eu budd-daliadau. Mae'r capel wedi dod yn rhan ddibynadwy o'r gymuned dim ond drwy fwydo'r rhai mewn angen.

**“Aeth y fideo'n feirol ar y cyfryngau cymdeithasol gan gyrraedd tua 16,000 o bobl a dangos yr undod rhwng eglwysi o lawer o wahanol gefndiroedd yn bwerus iawn.**



# Gobaith ar gyfer Iechyd

## Garden of the Lord, Caerdydd

**Mae Garden of the Lord yn eglwys gymunedol yn ardal Tremorfa, Caerdydd. Fel cynulleidfa, maent wedi ymateb i anghenion pobl eu hardal ers blynyddoedd lawer, ond pan ddaeth llawer o'u gweithgareddau arferol i ben oherwydd y cyfnod clo, chwiliodd yr eglwys am ffyrdd newydd o helpu.**

Mae teuluoedd ifanc sy'n ei chael hi'n anodd wrth i'r costau byw gynyddu, yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl a chorfforol, wedi dod yn gyffredin yn eu cymuned. Felly adeg y Nadolig, dosbarthodd yr eglwys dros 100 o hamperi Nadolig i helpu teuluoedd i ddathlu yn ystod yr hyn sydd wedi bod yn gyfnod anodd iawn o safbwynt ariannol i lawer o bobl. Yn fwy diweddar, maent hefyd wedi creu lle i bobl ifanc yn eu cymuned drwy gynnal cynhadledd ieuenctid. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o bobl ifanc wedi teimlo'n ynysig ac yn unig oherwydd dysgu gartref a chanllawiau'r cyfnod clo, felly mae ymdrechion yr eglwys i ddod â nhw at ei gilydd eto wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Mae Garden of the Lord wedi bod yn allweddol wrth roi sylw i'r nifer isel sy'n derbyn brechiadau Covid ymhlith cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Ochr yn ochr â bugail RCCG, y Bugail Ademola Agunbiade, bu'r eglwys yn gweithio gyda Chynghrair Efengylaidd Cymru a gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu Cymru i gynnal sesiwn ymwybyddiaeth hybrid gyda'r nod o fynd i'r afael â phetruster a'r camsyniadau a'r pryderon ynghylch y brechlyn. Hefyd, rhoddodd eglwys Garden of the Lord ganiatâd i'w hadeilad gael ei ddefnyddio fel canolfan frechu dros dro. Mae'r bugeiliaid hyn yn arweinwyr eglwys uchel eu parch ym mhob rhan o ddinas Caerdydd a thrwy gynnig eu llais dibynadwy i'r mater, cafodd nifer o bobl y brechlyn na fyddent wedi gwneud hynny fel arall.



# Gobaith i fyfyrwyr

## Eglwys Cornerstone, Abertawe

**Heb os, mae llawer o fyfyrwyr prifysgol wedi teimlo'n unig ac yn ynysig yn ddiweddar oherwydd pandemig Covid, a hynny oherwydd eu bod wedi gorfod goddef cyfnodau clo a chyfyngiadau yn eu neuaddau preswyl gyda myfyrwyr nad ydynt efallai wedi cwrdd â nhw o'r blaen.** Yn sgil hyn, rhoddodd Chloe Swart, gweithiwr myfyrwyr Eglwys Cornerstone, flaenoriaeth i feithrin ymdeimlad o gymuned ymhlith y myfyrwyr lle gellid mynd i'r afael ag unigrwydd, a lle na fyddai myfyrwyr yn teimlo ar goll ac yn unig mwyach.

Un ffordd y cynigiodd Eglwys Cornerstone gymuned i fyfyrwyr Abertawe oedd drwy gynnal cyrsiau 'Alffa'. Mae cwrs Alffa yn gyfres o sesiynau sy'n trafod bywyd, ffydd ac ystyr. Mae'n lle i drafod cwestiynau mawr bywyd, dweud yr hyn rydych chi'n ei feddwl, a chlywed safbwyntiau pobl eraill. Yn yr un modd â llawer o eglwysi ledled Cymru drwy gydol y pandemig, cynhaliodd Eglwys Cornerstone gyrsiau Alffa ar-lein dros Zoom. Roedd hyn yn boblogaidd iawn ymhlith myfyrwyr, a oedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i wneud ffrindiau a thrafod amrywiaeth o gwestiynau a oedd wedi codi ers dechrau'r pandemig. Ar ôl i'r cyfyngiadau ddechrau cael eu llacio, cynhaliodd Cornerstone y cwrs mewn tafarn leol, gan ddarparu awyrgylch hamddenol a chyfforddus i'r rhai oedd am ystyried cwestiynau mawr bywyd.

Argymhellodd un fyfyrwraig i ferch oedd yn byw gyda hi ei bod yn dod i gwrs Alffa, gan ei bod yn mynd drwy gyfnod arbennig o anodd ar ôl i'w ffrind ei lladd ei hun yn ddiweddar. Yn ystod noson gyntaf y cwrs, mae'r fyfyrwraig yn cofio derbyn cysur a chefnogaeth, a chafodd ei chyfeirio at y cymorth ychwanegol yr oedd ei angen arni. Ar ôl mynychu'r cwrs am sawl wythnos, teimlai ei bod yn gallu derbyn ei theimladau a'r cwestiynau niferus a oedd ganddi. Drwy Alffa, penderfynodd ddod yn Gristion, daeth yn rhan o Eglwys Cornerstone ac mae bellach yn cynnal cwrs Alffa ei hun fel y gall eraill gael profiad tebyg iddi hi.

# Gobaith ar gyfer iechyd meddwl

## Eglwys Gateway, Caerffili

**Ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, mae'r pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar iechyd meddwl.** Roedd y cymorth dan bwysau o'r blaen ond erbyn hyn mae amseroedd aros hwy i'r rhai sydd mewn argyfwng gael cymorth proffesiynol. Mae problemau ar gynnydd ym mhob rhan o'r gymdeithas. Mae'r rhai mwy cyfoethog wedi dioddef yn sgil colli swyddi a wynebu taliadau morgais mawr. Mewn ardaloedd tlotach, nid yw mynediad i'r rhwydweithiau cymorth arferol (fel cysylltiad â gweithwyr cymorth a mynediad i gyflenwadau bwyd) wedi bod ar gael. Ym mhob ardal, mae pobl wedi colli teulu a ffrindiau yn ogystal â theimlo'n unig ac yn ynysig. Mae pobl ifanc wedi dioddef hefyd, gan fynegi eu hofnau, eu straen a'u pryderon drwy hunan-niweidio, anhwylderau bwyta a phethau gwaeth, ac oherwydd y galw mawr mae rhai wedi cael trafferth cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae Eglwys Gateway yng Nghaerffili yn cynnal prosiect o'r enw Kintsugi Hope gyda nifer o eglwysi eraill yn yr ardal. Mae'r prosiect wedi'i enwi ar ôl y celfyddyd Japaneaidd o greu harddwch gan ddefnyddio llestri sydd wedi'u cracio, a'u gweledigaeth yw helpu pobl i greu harddwch allan o'u hen greithiau. Maent yn cynnal grwpiau i greu lle i gysylltu â phobl sydd heb gael cymorth arbenigol eto, ac i geisio eu helpu i symud ymlaen o'r gorffennol a gweld gobaith yn y dyfodol, gan atal pobl rhag cyrraedd argyfwng.

Dywedodd Claire Hughes, Cydgysylltydd Kintsugi, "drwy ddarparu lleoedd diogel i bobl deimlo eu bod yn cael eu derbyn, siarad am heriau bywyd, deall eu gwerth a chariad Duw atynt, a darparu cymuned o bobl i wynebu'r dyfodol gyda nhw, gall sefyllfaoedd ddechrau newid."

Rhannodd Claire un stori am gwpl yr oedd eu merch hynaf wedi'i lladd ei hun. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, daeth y cwpl ar draws Kintsugi Hope. Bob wythnos, byddai'r wraig yn mynychu ac wedyn mynd adref at ei gŵr i ddweud wrtho mor gadarnhaol a defnyddiol oedd y grŵp. Roedd hi'n teimlo ei bod yn gallu delio â'r hyn a oedd wedi digwydd yn well, ac roedd cyfle ganddi i gefnogi eraill. Wedyn aeth ei gŵr ati i gofrestru ar gyfer y cwrs a gweld ei fod yn rhoi lle iddo

siarad, trafod a gwrando ar eraill. Roedd yn gyfle iddo feddwl am y pethau roedd wedi eu hwynebu ac yn dal i’w hwynebu. Roedd y sesiynau mor ddefnyddiol iddynt fel eu bod wedi rhoi gwybod amdanynt i rieni eraill a oedd yn galaru, ac roedd Kintsugi Hope yn gallu cynnal grŵp arbennig ar gyfer rhieni a oedd wedi colli plentyn yn dilyn hunanladdiad.



# Gobaith i'r rhai sy'n agored i niwed

## The Well, Eglwys Sant Mihangel, Aberystwyth

**Mae The Well yn brosiect allgymorth cymunedol yn Aberystwyth sy'n cael ei gynnal gan Eglwys Sant Mihangel.** Nod y lle diogel sydd wedi'i greu yw helpu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd a'u cyfeirio at y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae hefyd yn hafan groesawgar i bobl sydd ar ymylon y gymuned, gan ddarparu lle sy'n teimlo fel cartref.

Mae The Well yn ymwneud â gwneud ffrindiau a chreu cymuned lle mae pawb yn cael eu cefnogi, beth bynnag maent yn ei wynebu mewn bywyd. Weithiau mae hynny'n cynnwys rhannu pryd o fwyd, chwarae pŵl, chwarae gemau bwrdd gyda'i gilydd, neu sgwrsio a chwerthin.

Daeth un dyn i The Well ac elwa ar y cariad a'r gofal a gynigir yno ar ôl colli aelod agos o'i deulu mewn damwain drawmatig yr oedd yn dyst iddi. Ar yr adeg hon roedd wedi colli hyder, ac roedd yn cael ei lethu gan alar. Dros amser, dechreuodd siarad yn fwy agored a rhannu ei brofiadau ag eraill. Mynegodd ddiddordeb mewn ffydd a chymerodd ran yn 'Alffa', sef cwrs sy'n enwog drwy'r byd ac yn helpu pobl i archwilio'r ffydd Gristnogol drwy drafodaethau mewn grwpiau bach. Daeth y dyn yn Gristion yn ddiweddarach ac yn ogystal â pharhau i fod yn aelod gwethfawr o gymuned The Well, mae bellach yn rhan o'r gynulleidfa yn Eglwys Sant Mihangel. Mae ei ffydd newydd, a chymorth a chymuned The Well, wedi'i helpu i fod yn fwy hyderus, ac mae'r newid ynddo yn anogaeth i bawb sy'n ei adnabod.



# Gobaith ar gyfer llesiant

## Eglwys RiverDee, y Fflint

**Mae Canolfan RiverDee ym mhen gogledd-ddwyreiniol pellaf Cymru yn nhref y Fflint, ac mae ei heglwys gymunedol yn cael ei chydnabod gan y gymuned leol fel grŵp o bobl sydd wir am helpu eraill.**

Pan ddechreuodd yr eglwys gyntaf yn 2006, roedd yr ardal leol yn un o'r ardaloedd gwaethaf o ran y mynegai amddifadedd, ond yn ffodus nid yw'r sefyllfa mor enbyd erbyn hyn, ac mae'r eglwys yn parhau i ddod â gobaith i'w chymuned leol. Gwneir hyn drwy amrywiol brosiectau allgymorth cymunedol, grwpiau plant, ymweld â'r henoed a sefydlu prosiect i gefnogi pobl ddigartref.

Yn yr un modd ag eglwysi eraill, mae Eglwys RiverDee wedi gorfod addasu eu prosiectau cymunedol oherwydd pandemig Covid. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'u rhwystro rhag chwilio am ffyrdd newydd a chreadigol o rannu cariad Duw gyda'u cymdogion. Yn 2021, gyda chymorth gwirfoddolwyr o'r eglwys, dosbarthwyd anrhegion Pasg ar gyfer plant lleol, bagiau crefft ar gyfer Sul y Mamau, pecynnau pampro, pecynnau coginio, pecynnau llesiant a hyd yn oed 60 o giniawau rhost i gartrefi pobl!

Hefyd rhoddodd cymuned yr eglwys gymorth ymarferol i deulu ifanc o bump yn ystod y cyfnod clo wrth iddynt geisio ymgartrefu yng Nghymru ar ôl symud o'u cartref yn Ne Affrica. Mae'r teulu wedi cael ei garu a'i gefnogi yn y broses hon ac mae bellach yn rhan lawn o gymuned yr eglwys.

Mae Eglwys RiverDee yn edrych at y dyfodol gyda gobaith mawr ac er gwaethaf yr heriau a grëwyd gan y pandemig, mae'r eglwys wedi gallu cyflogi gweithiwr plant cymunedol yn ddiweddar a fydd yn datblygu gwaith yr eglwys ymhellach.

# Gobaith i deuluoedd

## Llanllanast, Penfro

**Ym mhob cymuned mae pobl nad ydynt erioed wedi bod i'r eglwys, pobl sydd wedi'u dadrithio â chrefydd, a'r rheiny na fyddent byth yn ystyried mynd i mewn i adeilad eglwys.** Roedd 'Llanllanast' Neuadd y Dref, Penfro wedi cydnabod bod hyn yn wir yn eu cymuned nhw ac roeddent am ddarparu lle niwtral a chyfforddus i deuluoedd â phlant ifanc ddod i brofi'r ffydd Gristnogol. Mae Llanllanast yn fynegiant Crist-ganolog o eglwys ac yn edrych yn wahanol iawn i'r gwasanaeth traddodiadol ar fore Sul. O weithgareddau crefftau anniben, i hwyl a gemau i'r teulu, y nod yw annog pobl o bob oed i adnabod Iesu drwy greadigrwydd, lletygarwch a dathlu.

Mae'r rhai sy'n dod i Llanllanast Neuadd y Dref, Penfro yn mwynhau pryd o fwyd dau gwrs gyda'i gilydd ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau hwyl i'r plant a'r oedolion fel ei gilydd, fel crefftau, straeon, gemau a chaneuon - ac mae'r cyfan yn rhad ac am ddim.  Mae digwyddiadau arbennig hefyd yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn, fel partïon traeth a 'Phicnic a Chanmol' yng Nghastell Penfro lle roedd tua 500 o bobl yn bresennol yn 2021. Yn ystod y cyfnod clo pan nad oedd modd i'r grŵp gwrdd wyneb yn wyneb, aeth y tîm ati'n rheolaidd i ddosbarthu parseli, gweithgareddau a chardiau i'r teuluoedd sy'n gysylltiedig â nhw. Roeddent yn gallu parhau i feithrin perthynas a chysylltu â'r rhai a oedd yn bresennol drwy feddwl mewn ffyrdd gwahanol.

Yn ogystal â'u cyfarfodydd a'u digwyddiadau rheolaidd, mae Llanllanast Neuadd y Dref yn gweithio mewn ysgolion, gan ddefnyddio adnoddau Cymdeithas y Beibl i adrodd stori'r Nadolig. Mae hefyd wedi cael bwrdd llawn gweithgareddau Llanllanast yn y sioe amaethyddol leol, lle mae popeth ar gael yn rhad ac am ddim i fynychwyr y sioe.

Er mai'r hwyl a'r gemau anniben sy'n denu'r plant yn bennaf, mae'r rhieni'n cael budd o'r grŵp hefyd. Dywedodd Mo James, un o drefnwyr Llanllanast Neuadd y Dref, stori wrthym am fam sy'n dod yn rheolaidd gyda'i merch oedran ysgol gynradd. Dywedodd y ferch, ar ôl cael ei gwahodd i'w hastudiaeth Beibl gyntaf, ei bod yn teimlo bod twll siâp Duw ynddi wedi'i lenwi. Roedd hi'n arfer teimlo fel cwch ar goll ar y môr, ond mae bellach yn teimlo ei bod wedi'i hangori.

**“Mae Llanllanast yn fynegiant Crist-ganolog o eglwys ac yn edrych yn wahanol iawn i’r gwasanaeth traddodiadol ar fore Sul. O weithgareddau crefftau anniben, i hwyl a gemau i’r teulu, y nod yw annog pobl o bob oed i adnabod Iesu drwy greadigrwydd, lletygarwch a dathlu.**



## Cyhoeddi Iesu gyda'n gilydd

Rydym wir yn gobeithio eich bod wedi cael eich calonogi a'ch ysbrydoli gymaint ag yr ydym ni gan y straeon gobaith hyn. Hoffem ddiolch yn fawr i'r rhai sydd wedi bod mor garedig â rhannu eu straeon gyda ni. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y Cynghrair Efengylaidd, ewch i: **eauk.org**

cymru
cynghrair efengylaidd
gyda'n gilydd yn cyhoeddi Iesu

---


20 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1PT

Ffôn: 020 2022 9822 | E-bost: wales@eauk.org | Gwefan: eauk.org



Y Cynghrair Efengylaidd. Cwmni cyfyngedig trwy warant. Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 123448. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 212325. Yr Alban: SC040576. Swyddfa Gofrestredig: 176 Copenhagen Street, Llundain, N1 0ST